2.37

# TIR ANGOF;

NEU,

# GANIAD NEWYDD,

## AM STAD Y MEIRW;

GWEDI EI GOSOD ALLAN, TRWY

## Gyffelybiaeth Gwely.

---

1 AR ryw noswaith odiaeth wiwdeg,
Mewn myfyrdod ystod osteg,
Gwelwn WELY cymmwys cymmen,
Cryf iawn hollol crwn fel pellen.

2 Nid oes un dyn a ga'dd ei eni,
All gyflawn ddatgan ei faintioli,
Myrddiynau oedd ynddo'n gynnwysedig,
Ac yn ei ddal law anweledig.

3 'Roedd rhai oddiarno, rhai o tano,
A rhai bob ystlys weddus iddo,
Y fath WELY pan y gwelais,
Mewn syndod atto mi anturiais.

4 I edrych ydoedd neb o'm hadwedd,
O fewn i gyrrau hwn yn gorwedd;
Yn ol hir edrych yn mhob cornel,
Y cynta adnabum ydoedd Abel.

5 Gwelwn hefyd Adda ac Efa,
A'u mab Cain y llofrudd cynta',

Patriarchiaid, cewri amryw,
A'r hen dylwyth cyn y diluw.

6 Methusalem, er cyd ei ddyddiau,
Lamec, Noe, a'u cenhedlaethau,
Y gwyr, a'r gwragedd, merched, meibion,
A foddwyd yn y dyfroedd mawrion.

7 Holl drigolion yr oes nesaf,
A welwn ynddo am yr amlaf,
Nimrod heinyf, hir frenhiniaeth,
Ac adeiladwyr Babel odiaeth.

8 Abram, Isaac, Jacob brysur,
Esau, Joseph, a'i holl frodyr,
Pharao ffyrnig a'r hen Aiphtiaid,
Moses fwyn, a'r Israeliaid.

9 Amalec, Midian, Og, a Sehon,
Balac, Balaam, a'u dichellion,
A holl wrth'nebwyr Israel fwyn-glyd.
Ar eu taith i wlad 'raddewid.

10 Trigolion Canaan a'i holl drefydd,
Joshua, Samuel, Saul a Dafydd,
Nebuchodonosor a'r Syriaid,
Siriol Cyrus a'r holl Bersiaid.

11 Alecsander fawr, a Darius,
Yr hen Caesar, Pompey, Cresus,
A welwn yno'n ddiclyniaeth,
Nag wylo mwy am fuddugoliaeth.

12 'Roedd yno wrth gannoedd Garthaginiaid,
Mawrion grygiau o'r hen Groegiaid;
A'r Rhufeiniaid, rhwyfus hynod,
Gwiwdeg arfau. wedi eu gorfod.

13 Brenhinoedd cedyrn, Emprwyr mawrion,
Yn nghyd a'r gwaela'n mysg y tlodion,
A welwn yno'n ddiwahaniaeth,
Heb neb yn gommedd ei gwmp'niaeth.

X2035202356

14 Yr holl ryfelwyr mwyaf enwog,
Er mor gadarn a godidog;
Yr hen Samson, mab Manoa,
A'r cawr o Gath, yr hen Golia.

15 Yr oedd y meibion glana a'r merched,
Yn y GWELY hwn i'w gweled,
Yn dra anghysson gwedi eu gosod,
Holl nwydau nattur wedi eu dattod.

16 Sarah ac Esther tegwch Syria,
Helen deg draw o Gaerdroia:
A'r rhai salwa welwn eilwaith,
Yn boddio pawb yn y gwmpniaeth.

17 Yr holl bregethwyr mwya' areithiol,
Y mwya' eu dawn a'u dysg rhagorol:
Yn gorphwys oll oddiwrth eu llafur,
Heb brisio gwen na gwawd grandawwyr.

18 Yr holl gyfreithwyr gwych fu'n dadleu,
Cyn hyn yn daer wrth orsedd-feinciau,
Oedd heb ddim geiriau yno'n gorwedd,
A phob dadleuon gwedi eu diwedd.

19 Yr holl ddawnswyr gynt fu'n chwarau,
Wrth fwyn-gerdd tafod ac wrth dannau,
Oedd yn ddigynnwrf yn ei anuedd,
Heb flas at fiwsig nac ar faswedd.

20 Yr hen brophwydi a'r apostolion,
A hwythau'r dewrwych hen ferthyron,
Er cael yn llwch a lludw eu llosgi,
Oedd yn dra gwiwlan yn y GWELY.

21 Erlidwyr, cablwyr Crist a chrefydd,
Rhagfarnwyr cas dych'mygwyr celwydd,
Wedi gorfod taflu eu harfau,
I lawr, heb le i godi eu sodlau.

22 'Roedd yno rai o amryw liwiau,
Rhai gwynion, duon, llawer lliwiau,

O bob cenedl, gwlad a chrefydd,
Tan y nef yn un a'u gilydd.

23 'Roedd duwiol ac annuwiol ynddo,
Y goreu a'r gwaethaf fu yn rhodio,
Rhai doeth ac annoeth, tlawd, cyfoethog,
Hawddgar, hagar, sur. a serchog.

24 A dweud y gwir heb ommedd yma,
Ni bu na mab na merch, er Adda,
Nas gallswn weled yn ddiluddias
Ynddo, ond Enoc ac Elias.

25 'Roedd rhai o'r groth i'r GWELY'n neidio,
Rhai oddiar y bronau'n sugno,
'Roedd canol oedran a phenllwydni,
Yn llawn i'w gweled yn y GWELY.

26 'Roedd gwych a gwael yn dyfod iddo,
Fel dail oddiar y coed yn syrthio;
Neu fel llifeiriant cryf mewn afon,
Can's felly ordeiniwyd i blant dynion.

27 Ac er cymmaint oedd yn myned
Iddo, nos a dydd heb arbed,
Nid oedd yn agos llawn er hyny,
Ond fel y gele am fwy yn gwaeddi.

28 'Doedd yno ddim gofalu am trannoeth
Diystyru tlodi, parchu cyfoeth,
Nid oedd o'i fewn na chas na chariad,
Balchder bywyd, chwaut y llygad.

29 Gobeithio 'rwyf na raid im' draethu,
Beth wyf yn feddwl wrth y GWELY,
Gan fod ein llygaid bawb yn gweled,
Rhai bob munud iddo'n myned.

---

E. Morgan, Argraffydd, Merthyr.